

Cynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau (1994) Crynodeb o'r Datganiad Ariannol a Chylchlythyr 2025



Croeso i'ch datganiad ariannol cryno a'ch cylchlythyr i 2025 ar gyfer Cynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau (1994). Mae'r datganiad yn esbonio sefyllfa ariannol y Cynllun. Mae hefyd yn nodi'r datblygiadau diweddaraf. Rydym yn prisio'r Cynllun yn llawn bob tair blynedd, gyda diweddariadau blyneddol yn y cyfamser. Roedd y prisiad actiwaraid diweddaraf ar 31 Mawrth 2022 ac mae un 31 Mawrth 2025 ar y gweill.

Mae'r datganiad yn amlinellu sut mae sefyllfa ariannol y Cynllun wedi newid ers ei brisiad yn 2022 a'r diweddariadau wedyn. Roeddem wedi anfon yr hen ddatganiad ariannol atoch y llynedd.

A ninnau'n Ymddiriedolwyr, ein cyfrifoldeb yw monitro iechyd ariannol y Cynllun ac adrodd am ei sefyllfa i'r aelodau. Mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod yr ymddiriedolwyr a'r cyflogwyr yn cydweithio i gynnal iechyd y Cynllun a rhaid cyhoeddi'r datganiad i bob aelod.

Gobeithio bydd y datganiad yn eich helpu i ddeall y trefniadau ariannol sy'n cefnogi eich buddion ymddeol.


Sut mae'r Cynllun yn gweithio?

Mae'n gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio. Mae'n rhoi lefel warantedig o bensiwn pan fyddwch yn ymddeol yn seiliedig ar eich cyflog pensiynadwy a'ch blynyddoedd o wasanaeth yn y Cynllun.

Cyfraniadau'r cyflogwyr a'r aelodau at y Cynllun sy'n ariannu'r buddion pensiwn. Gydag elw o'n buddsoddiadau, mae'r gronfa'n talu am fuddion i aelodau o'r Cynllun a/neu eu dibynyddion nawr ac yn y dyfodol.

Y cyflogwyr sy'n talu am gostau rhedeg y Cynllun.

I gael rhagor o wybodaeth am fuddion y Cynllun, darllenwch y canllawiau yma: artscouncilplan.co.uk/resources/pension-plan-member-guide/



Deall y datganiad

Beth mae'n ei olygu?

Mae gan bensiynau eu hiaith eu hunain. Mae gan rai geiriau ystyr benodol yn nhermau pensiynau. Dyma eu hesbonio:

Asedau

Dyma'r holl arian sy'n cronni yn y Cynllun fel buddsoddiadau, cyfranddaliadau, bondiau cwmnïau, eiddo ac arian yn y banc.

Lefel ariannol

Dyma'r asedau wedi'u rhannu â'r rhwymedigaethau. Pe bai gwerth yr asedau yn hafal i'r rhwymedigaethau, byddai'r lefel ariannu yn 100%.

Rhwymedigaethau

Dyma bopeth sy'n ddyledus gan y Cynllun nawr a gwerth disgwylidig y buddion y bydd yn rhaid iddo eu talu i aelodau a'u dibynyddion yn y dyfodol.

Actiwari'r Cynllun

Gweithiwr y mae'r Ymddiriedolwyr yn ei benodi sy'n gyfrifol am asesu cynaliadwyedd ariannol y Cynllun a darparu cyngor am gyfraniadau a rheoli perygl.

Gwarged

Os oes gan y Cynllun ragor o asedau na rhwymedigaethau, bydd ganddo warged.

Diffyg

Os oes gan y Cynllun ragor o rwymedigaethau nag asedau, bydd ganddo ddiffyg.

Y datganiad

Sefyllfa ariannol y Cynllun

Ar ddyddiad y prisio actiwaraid diweddaraf o'r Cynllun, dyma oedd y canfyddiadau:

Ar 31 Mawrth	2022
Roedd gan y Cynllun asedau o	£232.4m
Y swm yr oedd ei angen arno i roi buddion oedd	£250.7m
Roedd yn meddwl bod diffyg/gwarged o	- £18.3m
Dyma'r lefel ariannu	93%

Sut mae wedi newid?

Rydym yn amcangyfrif sefyllfa ariannol y Cynllun o leiaf unwaith y flwyddyn. Amcangyfrif Actiwari'r Cynllun oedd:

2023	2024	2025*
£211.1m	£232.1m	£236.1m
£176.0m	£169.9m	£156.7m
+ £35.1m	+ £62.1m	+ £79.4m
120%	137%	151%

*Dyma ganlyniadau drafft tra bydd prisiad 31 Mawrth 2025 ar y gweill.

Ers 31 Mawrth 2022, mae sefyllfa ariannu'r Cynllun yn gwella'n sylweddol, yn bennaf oherwydd cynnydd mawr yn enillion bondiau dros y cyfnod. Rydym yn defnyddio enillion bondiau i gyfrifo cost taliadau pensiwn yn y dyfodol. Pan fydd enillion bond yn codi, mae amcangyfrif y gost o ddarparu pensiynau yn y dyfodol yn gostwng sy'n meddwl gostyngiad yng ngwerth rhwymedigaethau'r Cynllun. Dros yr un cyfnod, mae gwerth asedau'r Cynllun wedi aros yn weddol sefydlog. O ganlyniad, mae lefel ariannu'r Cynllun wedi gwella'n sylweddol, gydag amcangyfrif o warged o £79 miliwn ar 31 Mawrth 2025.

Taliadau i'r cyflogwyr

Nid oes unrhyw daliadau i'r cyflogwyr sy'n noddî'r Cynllun ers datganiad y llynedd.

Cynllun adfer

Gan fod gan y Cynllun ddiffyg ym mhrisiad 2022, mae'r Ymddiriedolwyr wedi cytuno ar gynllun adfer â'r cyflogwyr i dalu cyfraniadau ychwanegol i'r Cynllun bob blwyddyn tan 2034.

Beth pe bai'r Cynllun yn dechrau cael ei ddirwyn i ben?

Un o'r gwiriadau achlysurol y mae'r Actiwari'n ei wneud yw ystyried lefel ariannu'r Cynllun os bydd yn cael ei ddirwyn i ben heb unrhyw gyfraniadau pellach gan y cyflogwyr sy'n ei noddi. Pe bai'r Cynllun wedi'i gau ar adeg y prisiad actiwaraidd diwethaf a bod yr atebolrwydd am yr holl fuddion hyd at y dyddiad yna'n cael ei drosglwyddo i gwmni yswiriant, byddai angen £132.3 miliwn ychwanegol o asedau ar y Cynllun i sicrhau talu'n llawn y buddion. Mae'r Cynllun mewn sefyllfa o solfedd llawn ac mae'n cyfateb i lefel solfedd o 64%.

Bydd y gwiriad yn digwydd eto ar 31 Mawrth 2025 fel rhan o'r prisiad parhaus. Nid yw ei ganlyniadau wedi'u cadarnhau eto. Ond rydym yn disgwyl i'r sefyllfa fod yn well ers 31 Mawrth 2022 fel y gwnaeth gyda ffigurau yn amcangyfrif i 2025 sydd ar y tudalen blaenorol.

Rhaid inni amcangyfrif y ffigur i gael darlun cyflawn o iechyd ariannol y Cynllun. Nid yw'n golygu bod y cyflogwyr yn meddwl cau'r Cynllun.

Pe bai'r Cynllun yn cau ac na fyddai'r cyflogwyr yn gallu talu digon i sicrhau buddion yr aelodau yn llawn, byddai'r Gronfa Diogelu Pensiwn yn cymryd drosodd y Cynllun a thalu iawndal i aelodau. Nid nod y Gronfa Diogelu Pensiwn yw ad-dalu'n llawn bensiwn pob aelod. Ond bydd yn sicrhau bod aelodau'n cael y rhan fwyaf o'u pensiwn. Fel arfer mae'n meddwl tua 90% o'r pensiwn i'r rhan fwyaf o'r aelodau dan oedran pensiwn arferol a 100% i'r mwyafrif o bensiwnwyr. Ond mae unrhyw gynnydd i bensiynau unwaith y bydd cynllun yn y Gronfa Diogelu Pensiwn yn llai hael na'r cynnydd y byddai'r Cynllun wedi'i gynnig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Gronfa Diogelu Pensiwn: www.ppf.co.uk neu drwy e-bostio information@ppf.co.uk neu ffonio 0345 600 2541 (9.00am – 5.30pm ddydd Llun-Gwener).

Datganiadau am ymwneud y Rheoleiddiwr Pensiynau â'r Cynllun

Mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu ein bod yn rhoi gwybodaeth benodol ichi am ymwneud y Rheoleiddiwr Pensiynau â'r Cynllun.

Dyma gadarnhau nad oes unrhyw addasiadau na chyfarwyddiadau i'r Cynllun gan y Rheoleiddiwr ers y datganiad diwethaf.

Rhagor o wybodaeth a Newyddion y Cynllun

Darllenwch ymlaen i weld cyflwyniad gan eich Cadeirydd newydd i'r Ymddiriedolwyr a'r diweddaraf gan yr Ymddiriedolwyr.

Am ragor o wybodaeth neu gynnig adborth

Gobeithio y byddwch yn cael budd o'r datganiad. Croeso ichi roi adborth neu awgrymu rhywbeth arall yr hoffech ei weld yma.

Cwestiynau am y Cynllun neu am gael copïau o ddogfennau'r Cynllun? Cysylltwch â'r gweinyddwyr.

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Ymddiriedolwyr

Rhowch wybod inni os ydych yn newid eich cyfeiriad inni gadw mewn cysylltiad. Os ydych yn aelod gweithredol, rhowch wybod am newid cyfeiriad i'ch cyflogwr. Os ydych yn aelod gohiriedig neu'n bensiwnwr, cysylltwch â gweinyddwyr y Cynllun.

Cadwch yn gyfredol hefyd eich enwebiadau am bobl eraill a fydd yn elwa o'ch pensiwn, yn enwedig os yw'ch amgylchiadau'n newid. Mae'r enwebiadau'n nodi pwy fydd yn cael eich buddion marwolaeth a'ch pensiwn i ddibynyddion ar ôl ichi farw. Mae modd enwebu rhagor nag un person. Er nad oes rhaid i'r Ymddiriedolwyr neu weinyddwr y Cynllun ei wneud, byddwn yn ystyried eich dymuniadau wrth wneud ein penderfyniad. Cysylltwch â gweinyddwyr y Cynllun neu adran Adnoddau Dynol eich cyflogwr am ffurflen. Mae modd gweld a diweddarau eich buddiolwyr ar-lein drwy PRISM.

Cyfeiriad:

Gweinyddwyr Cynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau

Hymans Robertson
20 Waterloo Street
Glasgow/Glaschu G2 6DB

Ffôn: 0141 566 7777

E-bost: artscouncil@hymans.co.uk

Eich hysbysu am eich pensiwn

Mark Engelbretson
Cadeirydd
yr Ymddiriedolwyr



Croeso a chyflwyniad gan Mark Engelbretson

Yn Ionawr 2025 ymddeolodd Chris Daykin. Fi yw Cadeirydd newydd Ymddiriedolwyr Cynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau (1994).

Rwy'n gweithio yn y diwydiant pensiynau ers 30 mlynedd yng ngwasanaethau Ymddiriedolwyr Ross Cyf. Rwyf wedi gweithio mewn swyddi uwch yn y maes i lawer o gyflogwyr mawr gan gynnwys British Airways, RAC, Carnival, Mothercare a Rhwydwaith y Rheilffyrdd. Rwy'n cefnogi'r celfyddydau'n frwd ac mae'n anrhydedd bod yn rhan o'r Cynllun.

Ar ran yr Ymddiriedolwyr, hoffwn ddiolch i Chris Daykin am ei flynyddoedd lawer o gefnogaeth eithriadol fel Ymddiriedolwr a Chadeirydd. Roedd ei ymroddiad a'i brofiad yn amhrisiadwy i'r Cynllun a'n haelodau. Hoffem ddymuno'n dda iddo yn ei ymddeoliad.

Fel eich Cadeirydd newydd, hoffwn eich croesawu i'r rhifyn diweddaraf o'ch cylchlythyr. Y llynedd roedd byd y pensiynau wedi parhau i newid a dyma'r datblygiadau.

Newid Ymddiriedolwyr

Penderfynodd yr Ymddiriedolwr a gafodd ei enwebu gan bensiynwyr y Cynllun – Mark Harrison – ymddiswyddo ar ôl bron i 25 mlynedd yn y swydd. Diolch i Mark am i wasanaeth a'i ymroddiad dros y blynyddoedd. Rydym yn dymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol. Yn sgil etholiad ymhlith yr aelodau, cafodd Francis Runacres ei ethol ym Mai 2025 yn Ymddiriedolwr newydd o ran y pensiynwyr. Yn 2000 dechreuodd Francis weithio i Gyngor Celfyddydau Lloegr mewn gwahanol swyddi gan gynnwys arwain yr Uned Sefydlogi ac Adfer, bod yn Gyfarwyddwr Buddsoddi a Chyfarwyddwr Gweithredol Menter ac Arloesi tan ei ymddeoliad yn 2023.

Cefnogaeth i'n cynllun a'n gweledigaeth

Mae cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog ac enillion wedi gwella sefyllfa'r Cynllun yn sylweddol gyda chymorth perfformiad ein portffolio buddsoddi. Bu'r Ymddiriedolwyr yn gweithio'n ddiwyd ar fuddsoddi asedau'r Cynllun yn gyfrifol. Ar dudalen 6 mae rhagor am ein stiwardiaeth a'n buddsoddi cyfrifol.

Mae'r tri chyflogwr mwyaf yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod gan bob gweithiwr yr hawl i fod yn aelodau o'r Cynllun sy'n gymorth mawr i'r Ymddiriedolwyr allu cael canlyniadau gwych i bawb.

Ar-lein gyda PRISM

Dylech fewngofnodi i PRISM, ein porth aelodau ar-lein newydd. Mae'n cynnwys yr holl wybodaeth am eich buddion yn y Cynllun. Yno mae gwybodaeth ddefnyddiol ar yr hafan a chyhoeddiadau a newyddion am y Cynllun.

Er mwyn cael y gwerth mwyaf, rhaid cofrestru a mynd drwy broses ddiogelwch fer. Ar ôl mewngofnodi, byddwch yn gweld rhagor am eich pensiwn ar ôl ymddeol gyda'r Cynllun. Bydd modd ichi weld a diweddarau eich manylion personol, ychwanegu a diweddarau eich buddiolwyr enwebedig (yr hyn dylech ei wneud yn rheolaidd) a llawer rhagor. Ewch i www.artscouncilplan.co.uk i fewngofnodi a chofrestru neu sganio'r cod QR uchod.



Os oes problemau mewngofnodi, cysylltwch â gweinyddwyr y Cynllun (manylion ar dudalen 3).

Dangosfwrdd pensiynau a dod o hyd i bensiynau coll

Mae'r Cynllun yn cydweithio'n agos â'i weinyddwr i wireddu un o fentrau mwyaf y diwydiant pensiwn – cyflwyno Dangosfwrdd Pensiynau. Llywodraeth y DU sy'n cefnogi'r prosiect. Bydd yn fodd i unigolion nad ydynt wedi ymddeol gael gwybodaeth ddiogel mewn un lle am eu pensiwn nad yw wedi'i hawlio (gwladwriaethol, preifat a gweithle). Bydd yn ffordd haws i unigolion ddod o hyd i bensiynau coll a gweld rhai presennol nad ydynt eto'n cael eu talu.

Defnyddiwch y Dangosfwrdd pan fydd ar waith. Os ydych wedi gweithio i gyflogwyr eraill cyn Cyngor y Celfyddydau neu ers hynny, bydd modd ichi ddod o hyd i'ch holl bensiynau o'r gweithleoedd eraill drwy'r Dangosfwrdd. Bydd yn ffordd ichi weld pa bensiwn sy'n dod ichi ar ôl ymddeol.

Nid ydym yn gwybod eto pryd bydd y Dangosfwrdd yn fyw. Ond cadwch lygad barcud am hysbysebion gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a diweddariadau gennym.

I sicrhau gweld eich holl wybodaeth bensiwn unwaith y bydd y Dangosfwrdd ar gael, mae'n bwysig bod eich holl gynlluniau pensiwn â gwybodaeth bersonol gyfredol amdanoch. I weld a diweddaru'r data personol sydd gan GynllunYmddeol Cyngor y Celfyddydau (1994) amdanoch, ewch i ddangosfwrdd PRISM.

Cynnydd mewn pensiwn

Cynyddodd y rhan fwyaf o bensiynau gan 1.7% yn Ebrill 2025, yn unol â'r cynnydd blynyddol yn y Mynegai Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr (CPI) hyd at Fedi 2024. Dyma'r sail y mae'r rhan fwyaf o gynlluniau yn y sector cyhoeddus

yn ei defnyddio i bennu cynnydd mewn pensiwn. Ond mae'r cynnydd i chi'n cynnwys elfennau o'r pensiwn lle nad yw cynnydd yn y CPI wedi'i warantu. Disgresiwn Bwrdd yrYmddiriedolwyr a Chyngor Celfyddydau Lloegr (yn brif gyflogwr) sy'n gyfrifol am hyn.

Cydraddoldeb yr Isafswm Pensiwn Gwarantedig

Yn sgil dyfarniad yr Uchel Lys yn 2018, rhaid i ymddiriedolwyr pensiwn fynd i'r afael ag elfen o Isafswm Pensiwn Gwarantedig i sicrhau bod buddion pensiwn yn gyfartal i ddynion a menywod. Roeddem wedi adeiladu Isafswm Pensiwn Gwarantedig cyn 5 Ebrill 1997. I'r rhai ohonoch sydd ag elfen ohono yn eich pensiwn ac sydd wedi'ch effeithio gan gydraddoldeb, byddwch yn cael llythyr sy'n esbonio'r effaith. Efallai eich bod eisoes wedi cael y llythyr.

Newidiadau i'r dreth etifeddiant

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi newidiadau i'r dreth etifeddiant a sut mae'n effeithio ar bensiynau. O Ebrill 2027, bydd arian sydd dros ben yn eich pensiwn preifat yn rhan o'ch ystâd wrth gyfrifo'r dreth etifeddiant sydd i'w thalu.

Ar hyn o bryd nid yw'n cynnwys y buddion marwolaeth na'r pensiwn dibynnydd y bydd eich anwyliad yn eu cael o'r Cynllun. Bydd y pensiynau felly o hyd wedi'u heithrio rhag talu treth etifeddiant.

Gall treth etifeddiant fod yn faes cymhleth, felly dylech gael cyngor amdani i wneud y penderfyniadau cywir. Mae cynghorwyr ariannol annibynnol lleol i'w cael yma: www.unbiased.co.uk.



Buddsoddi asedau'r Cynllun

Sut mae'r Cynllun yn cael ei fuddsoddi?

Nod yr Ymddiriedolwyr yw buddsoddi asedau'r Cynllun mewn ffordd gyfrifol ac ariannol effeithiol i sicrhau bod yr aelodau yn cael eu priod fuddion. Rydym bob amser wedi ymdrechu i fuddsoddi'n ddoeth i gydbwyso enillion rhesymol â pherygl gwahanol fathau o fuddsoddiad. Rydym yn ystyried natur hir iawn rhwymedigaethau'r Cynllun. Hyd yn oed heb ddim aelodau newydd, byddai talu pensiynau'r aelodau presennol yn cymryd rhagor nag 80 mlynedd. Gan fod y Cynllun ar agor o hyd, gydag aelodau newydd yn ymuno a buddion yn dal i adeiladu i bob aelod gweithredol, mae'r gorwel buddsoddi yn un pell iawn.

Buddsoddiad cyfrifol

O ystyried hirhoedledd y Cynllun, rydym wedi parhau i ddatblygu strategaeth fuddsoddi gyda ffocws ar ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethol. Dros y blynyddoedd diwethaf, buom yn ystyried y buddsoddiadau a fydd yn amddiffyn y Cynllun rhag peryglon ariannol sy'n deillio o'r newid yn yr hinsawdd gan gynnwys buddsoddiadau sy'n cyfrannu at y newid i economi carbon isel. Yn 2020, roeddem wedi fframio ein Gweledigaeth am Strategaeth Fuddsoddi'n Gyfrifol. Roedd yn cynnwys yr uchelgais canlynol:

“ Buddsoddi nid yn unig gan ystyried agweddau cynaliadwyedd ond sicrhau hefyd bod ein hasedau'n cyfrannu at ddyfodol cynaliadwy ”

Bu'r weledigaeth yn rhan annatod o ddatblygu ein strategaeth fuddsoddi yn y blynyddoedd diwethaf. Rydym wedi ystyried pob un o'n hasedau yn ei dro i weddu â'r egwyddorion yma. Yn Ionawr 2025, roeddem wedi ystyried sut roedd modd datblygu ein Gweledigaeth gan adeiladu ar y datganiad gwreiddiol ac edrych ymlaen at 2030. Roedd trafodaethau am ba gamau i'w cymryd yn y blynyddoedd nesaf i wella ein huchelgais. Byddwn yn canolbwyntio ar:

1

Stiwardio'n uchelgeisiol, meddylgar a seiliedig ar weithredoedd

2

Creu newid drwy fuddsoddi

3

Mesur cynnydd a sut mae modd ei ddefnyddio i ysgogi newid

Yn 2025, cafodd yr Ymddiriedolwyr unwaith eto eu gwahodd gan y Cyngor Adrodd Ariannol i fod yn llofnodwyr Cod Stiwardio'r DU. Mae'r rhan fwyaf o'r llofnodwyr yn gyrff canolig neu fawr. Ni yw un o'r lleiaf yn eu plith. Mae'n gamp fawr ein bod yn parhau i fodloni safonau uchel y Cod a dangos ein hymrwymiad i stiwardio a buddsoddi cyfrifol. Byddwn yn ymdrechu i barhau'n llofnodwyr drwy wella o hyd sut i stiwardio'n hasedau.

Mae manylion y strategaeth a'n dull o fuddsoddi yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi. Mae ar gael i'r cyhoedd: <https://artscouncilplan.co.uk/resources/statement-of-investment-principles/>

Roeddem wedi buddsoddi'r asedau'n fras yn ôl y siart isod ar 31 Mawrth 2025.



- Ecwiti 44%
- Eiddo 8%
- Isadeiledd 19%
- Bondiau corfforaethol 5%
- Giltiau cysylltiedig â mynegai 25%

*Efallai na fydd y ffigurau'n adio'n iawn oherwydd talgrynnu.

Faint o aelodau sydd gan y Cynllun?

2,848 ar **31 March 2025**.

Aelod gweithredol
849 Un sydd ar hyn o bryd yn cronni buddion o'i wasanaeth cyfredol

Aelod gohiriedig
1,379 Un sydd wedi ymadael â'r Cynllun ond heb ymddeol eto

Pensiynwr
620 Un sydd wedi ymddeol ac sy'n cael buddion o'i bensiwn

Ydych chi'n meddwl am ymadael â'r Cynllun?

Os ydych yn meddwl gwneud, dylech gymryd cyngor ariannol yn gyntaf. Mae cynghorwyr ariannol annibynnol lleol i'w cael yma: www.unbiased.co.uk.



Gwybodaeth am y cynllun

Pwy yw'r Ymddiriedolwyr?

Nhw sy'n gyfrifol am redeg eich Cynllun yn effeithiol. Dyma'u henwau:

Mark Engelbretson

Cadeirydd Annibynnol sy'n cynrychioli Ymddiriedolwyr Ross Cyf

Ian Stevenson

Ymddiriedolwr gan Yr Alban Greadigol

Navees Rahman

Ymddiriedolwr gan Gyngor Celfyddydau Lloegr

Lorna Virgo

Ymddiriedolwr gan Gyngor Celfyddydau Cymru

Francis Runacres

Ymddiriedolwr wedi'i enwebu gan y pensiynwyr

Mumtaz Ali

Ymddiriedolwr wedi'i enwebu gan yr aelodau gweithredol

Pwy yw cynghorwyr proffesiynol y Cynllun?

Mae'r Ymddiriedolwyr yn dirprwyo rhai o'u cyfrifoldebau beunyddiol i weithwyr eraill ac yn cymryd cyngor gan arbenigwyr wrth wneud penderfyniadau. Dyma'u henwau:

Actiwari'r Cynllun

Bill Barnes, Hymans Robertson LLP

Archwilydd annibynnol

Crowe U.K. LLP

Gweinyddwyr

Hymans Robertson LLP

Rheolwyr buddsoddi

Buddsoddwyr IFM

Legal & General (Rheoli Pensiynau)

Partneriaid Seilwaith Quinbrook (GP3)

Rheoli Asedau Storebrand

Cynghorwyr buddsoddi

Hymans Robertson LLP

Darparwyr cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol

Aegon Scottish Equitable plc

Cynghorwyr cyfreithiol

Sacker a Phartneriaid

Cynghorwyr Cyfamod

Grant Thornton LLP

Rheolwyr data

Mae'r Ymddiriedolwyr a'r Actiwari'n defnyddio eich data personol i weinyddu'r Cynllun. Mae pob un yn gweithredu fel rheolydd data. Byddwn yn prosesu eich data personol yn deg a chyfreithlon, yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018 mewn perthynas â'r Cynllun yn unig. Mae hysbysiad preifatrwydd gyda manylion am sut rydym yn defnyddio eich data personol ar gael ar gais gan weinyddwr y Cynllun neu mae ar ein gwefan:

www.artscouncilplan.co.uk/resources/privacy-notice/

Cwestiynau am eich data personol? Cysylltwch â gweinyddwyr y Cynllun (manylion ar dudalen 3).

Sut i osgoi sgamiau pensiwn

Rhaid aros yn wylidwrs rhag sgamiau pensiwn. Yn aml mae sgamwyr yn ymglyfwno fel cynghorwyr awdurdodedig yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Wedyn maent yn perswadio aelodau o gynlluniau pensiwn i fynd at eu cynilion yn gynnar (cyn 55 oed) neu drosglwyddo eu pensiwn i gyfleoedd buddsoddi deniadol ond twyllodrus.

Sut i adnabod sgam:

- Byddwch yn wylidwrs rhag galwadau ffôn, e-byst neu gynigion nad oeddech yn eu disgwyl – yn enwedig sy'n cynnig 'adolygu eich pensiwn am ddim' neu fuddsoddiadau perygl isel/enillion uchel. Ymhlith y sgamiau mae cynlluniau rhyddhau eich pensiwn yn gynnar, yn aml gan eich targedu drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu glywed amdanoch gan eraill.
- Byddwch yn ofalus am waith papur sy'n mynnu cael eich llofnod ar unwaith neu am gyngor i fuddsoddi eich cynilion i gyd mewn un lle – yn gyffredinol byddai cynghorwyr ariannol yn argymhell arallgyfeirio eich asedau.

Gochelwch rhag cynigion sy'n edrych yn rhy dda!

- Byddwch yn amheus o glywed am ffyrdd o osgoi'r gyfraith sy'n fodd i gael arian o'ch pensiwn.
- Yn aml mae sgamiau'n addo enillion mawr o drosglwyddo eich arian i wledydd eraill.

Os ydy'r sgamwyr yn eich dal, gallai arwain at golli eich pensiwn. Mewn achosion gwaeth byddai'n meddwl cael bil treth ar eich pot pensiwn am hyd at 55% am fynd at yr arian yn gynnar.

Dilynwch bedwar cam allweddol yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol: Gwrthodwch gynigion annisgwyl; Gwiriwch â phwy rydych yn siarad; Peidiwch â chael eich rhuthro na'ch rhoi dan bwysau; Ceisiwch wybodaeth neu gyngor diduedd. Am ragor o wybodaeth ar wefan y Cynllun: <https://artscouncilplan.co.uk/your-pension-knowledge/avoiding-pension-scams/>

Rhestr wirio pensiynau

Bob blwyddyn mae'n werth ateb ychydig o gwestiynau a fydd yn effeithio ar eich pensiwn.

Y cwestiynau

Fyddai'n bosibl ichi fynd y tu hwnt i'r lwfans blynyddol o £60,000 am flwyddyn dreth 2025/26? Dyma'r uchafswm y gallwch chi neu'ch cyflogwr gyfrannu at eich holl pensiynau mewn blwyddyn heb dalu treth.

Fyddai'n bosibl ichi fynd y tu hwnt i'r lwfans treth ar gyfandaliadau? Mae lwfans y cyfandaliad yn pennu terfyn o £268,275 ar y swm o arian di-dreth mae modd ichi gael o'ch pensiynau. Mae'r Lwfansau Cyfandaliad a Budd Marwolaeth yn pennu terfyn o £1,073,100 ar y swm o arian di-dreth y mae modd ei dalu yn ystod eich oes ac ar ôl eich marw.

Ydych yn agosáu at ymddeol ac yn ystyried eich opsiynau? Os ydych, ystyriwch a yw eich dewisiadau buddsoddi o hyd yn addas ichi ai peidio.

Beth i'w wneud?

Cysylltwch â Hymans Robertson am ffeithlen: artscouncil@hymans.co.uk Dylech gael cyngor ariannol annibynnol. Mae cynghorwyr ariannol annibynnol lleol i'w cael yma: www.unbiased.co.uk.

Cysylltwch â Hymans Robertson am ffeithlen: artscouncil@hymans.co.uk Dylech gael cyngor ariannol annibynnol. Mae cynghorwyr ariannol annibynnol lleol i'w cael yma: www.unbiased.co.uk. Os ydych yn meddwl bod hyn yn effeithio arnoch, cysylltwch â Hymans Robertson.

Gofynnwch am gyngor ariannol annibynnol a chysylltu â Hymans: artscouncil@hymans.co.uk am ragor o wybodaeth (fel gwerth trosglwyddo neu ddyfynbris ymddeol). Mae cynghorwyr ariannol annibynnol lleol i'w cael yma: www.unbiased.co.uk.